OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1161 (Cy.76)

IECHYD PLANHIGION, CYMRU

Rheoliadau Tatws sy'n Tarddu o'r Iseldiroedd (Dirymu) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*13 Ebrill 2005*
Yn dod i rym - -	*15 Ebrill 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tatws sy'n Tarddu o'r Iseldiroedd (Dirymu) (Cymru) 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n dod i rym ar 15 Ebrill 2005, yn gymwys o ran Cymru.

Dirymu Rheoliadau

2. Mae'r Rheoliadau canlynol wedi'u dirymu i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru —

(a) Rheoliadau Tatws s'n Tarddu o'r Iseldiroedd 1997(**3**); a

(b) Rheoliadau Tatws sy'n Tarddu o'r Iseldiroedd (Diwygio) 1998 (**4**).

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 1997/2441, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/3168.
(**4**) O.S. 1998/3168.